Cofnodion

Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth, 26 Mawrth 2024

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr W Routley (Cadeirydd), J Cleverly, C Townsend, P Drewett, D Jenkins, R Howells and D Mayer

Yn bresennol: Samantha Schanzer (Cynghorydd Craffu), Sally Ann Jenkins (Cyfarwyddwr Strategol - Gwasanaethau Cymdeithasol), Mary Ryan (Pennaeth Gwasanaethau Oedolion), Caroline Ryan-Phillips (Pennaeth Atal a Chynhwysiant) and Luke Butcher (Uwch Bartner Busnes AD a DT)

Y Cynghorydd D Harvey (Aelod Cabinet dros Les Cymunedol), S Marshall (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant) a J Hughes (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion)

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr P Bright and B Davies

---

1 **Ymddiheuriadau**

Y Cynghorwyr Bright a B Davies

2 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar **16 Ionawr 2024** yn **gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod**.

4 **Adroddiad Recriwtio a Chadw**

Gwahoddedigion:

Sally Ann-Jenkins (Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol),
Luke Butcher (Uwch Bartner Busnes AD a DS),
Caroline Ryan-Phillips (Pennaeth Atal a Chynhwysiant),
Mary Ryan (Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion),
y Cyng. Jason Hughes (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion)),
y Cyng. Stephen Marshall (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant)),

y Cyng. Debbie Harvey (Aelod Cabinet dros Les Cymunedol)

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Cymdeithasol.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Gofynnodd y Pwyllgor am ganran y swyddi gwag. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor fod y trosiant blynyddol presennol yn 11.7% a chytunodd i roi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.

- Holodd y Pwyllgor ynghylch effaith swyddi gwag ar ddarparu gwasanaethau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor fod gan rai meysydd o'r gwasanaeth weithlu sefydlog, ac roedd yr her mewn meysydd penodol gan gynnwys gofal preswyl, y Tîm Amddiffyn Plant a'r Gwasanaeth Ieuenctid. Nodwyd mai'r effaith fwyaf oedd pwysau'n cynyddu ar staff a nodwyd yr her o ran recriwtio a chadw staff sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol.

- Nododd y Pwyllgor beryglon sydd ynghlwm wrth ddibynnu ar staff asiantaeth a gofynnodd pa ddewisiadau eraill oedd wedi'u profi. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor mai sicrhau gweithlu parhaol oedd y nod, a bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio o fewn gofal preswyl yn bennaf. Hysbyswyd y Pwyllgor bod cyflenwi'n cael ei annog o fewn timau presennol lle bo hynny'n briodol cyn defnyddio asiantaeth. Hysbyswyd y Pwyllgor bod trafodaethau i adeiladu banc rhanbarthol o staff wrth gefn ar gyfer gofal preswyl plant yn parhau, ond roedd yn faes heriol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod gwaith wedi'i wneud i reoli taliadau asiantaethau ar draws holl awdurdodau lleol Cymru er mwyn sicrhau bod taliadau'n cael eu cadw'n isel er mwyn lleihau'r awydd ymhlith staff i adael am waith asiantaeth.

- Holodd y Pwyllgor a fu unrhyw gydweithrediad â'r GIG ynghylch y system fanciau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor nad oeddent yn gweithio gyda'r GIG gan y byddai angen system fwy pwrpasol.

- Holodd y Pwyllgor a allai annog staff i beidio â cheisio gwaith asiantaeth effeithio ar hyfforddiant mewnol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor nad oedd y trosiant o 11.7% yn cael ei gyflenwi'n gyfan gwbl gyda staff asiantaeth ac nad oedd y defnydd o staff asiantaeth yn sylweddol. Cawsant wybod bod adolygiadau cyson o raddfeydd cyflog a bod cyflogau yng Nghasnewydd yn uchel yn y cyd-destun rhanbarthol. Nodwyd bod buddion yn cael eu hyrwyddo wrth weithio i'r awdurdod lleol gan gynnwys hyfforddiant a phensiwn.

- Holodd y Pwyllgor a oedd asiantaethau'n tynnu arian o'r gwasanaeth. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion wrth y Pwyllgor bod staff yn gweithio ar draws y 3 safle preswyl i ddarparu sefydlogrwydd a chynefindra. Tynnwyd sylw at y ffaith bod rhai staff asiantaeth wedi cael eu recriwtio gan CDC a bod rhai staff blaenorol wedi dychwelyd ar ôl gadael am waith asiantaeth.

- Holodd y Pwyllgor pa waith cydweithredol oedd yn cael ei wneud gydag awdurdodau lleol eraill. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor fod peidio â rhannu graddfeydd cyflog yn her. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion wrth y Pwyllgor fod Casnewydd yn cynnal Gartref Gyntaf a bod staff ar draws awdurdodau lleol cyfagos yn gallu dewis gwneud gwaith ychwanegol dros benwythnosau. Dywedodd yr Uwch Bartner Busnes AD a DS wrth y Pwyllgor y byddant bob amser yn rhoi cynnig ar yr holl opsiynau mewnol cyn defnyddio staff asiantaeth.

- Holodd y Pwyllgor a oedd unrhyw waith yn cael ei wneud yn genedlaethol i helpu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor y gwnaed darn o waith cenedlaethol gyda chyngor cyfreithiol o safbwynt sut i weithio gydag asiantaethau yn

hytrach nag yn eu herbyn. Roeddent yn cytuno bod gweithwyr asiantaeth yn angenrheidiol ond roedd yn ymwneud â rheoli eu defnydd.

- Holodd y Pwyllgor sut roedd tâl mamolaeth CDC yn cymharu ag Awdurdodau Lleol eraill. Dywedodd yr Uwch Bartner busnes AD a DS wrth y Pwyllgor ei fod yn gymharu'n dda ac y byddai buddion gweithwyr yn cael eu hadolygu pan lansiwyd y Cynllun Pobl. Dywedodd wrth y Pwyllgor y gellid archwilio mwy o opsiynau ynghylch buddion gweithwyr ond roeddent yn cydnabod bod cyfyngiadau. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol eu bod yn rhagweithiol wrth gynnig hyblygrwydd i staff sy'n dychwelyd o gyfnod mamolaeth.

- Teimlai'r Pwyllgor fod angen mwy o ddata cymharol ar yr adroddiad, gan nodi'r data ar lefelau salwch. Eglurodd y Cyfarwyddwr Strategol fod salwch emosiynol yn cyfri am 40% o gyfanswm y salwch, nid 40% o'r staff. Hysbyswyd y Pwyllgor bod y sefyllfa yn y Gwasanaethau Plant wedi gwella'n sylweddol a bod morâl yn uchel er gwaethaf effaith y pandemig. Hysbyswyd y Pwyllgor bod adborth gan staff wedi bod yn gadarnhaol a bod staff yn mwynhau'r gwaith heriol ond diddorol yr oedd Casnewydd yn ei ddarparu. Hysbyswyd y Pwyllgor o'r gostyngiad sylweddol mewn salwch yn y Gwasanaethau Plant a oedd yn uwch na'r targed. Nodwyd bod y Gwasanaethau Oedolion yn cael trafferth gyda lefelau salwch, ond roedd yn anodd cymharu ag Awdurdodau Lleol eraill gan nad oedd data ar gael i'r cyhoedd mwyach. Fodd bynnag, mae'r data meincnodi nad yw'n gyhoeddus sydd ar gael i'r gwasanaeth yn dangos bod Casnewydd o fewn traean uchaf awdurdodau lleol Cymru a'i bod yn perfformio'n gymharol dda.

- Holodd y Pwyllgor am y Normal Newydd a dywedodd fod angen mwy o gymhariaeth data i ddangos yr effaith ar recriwtio a lles staff. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol feysydd y Gwasanaethau Cymdeithasol lle roedd staff wedi gweithio wyneb yn wyneb ac yn parhau i weithio felly. Hysbyswyd y Pwyllgor bod cyfran fawr o staff yn gweithio ar sail hybrid a'u bod yn ei werthfawrogi. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd fod cyfarfodydd cenedlaethol a rhanbarthol sy'n cael eu cynnal ar-lein yn galluogi lefel uwch o bresenoldeb ac yn lleihau'r amser sy'n cael ei golli.

- Holodd y Pwyllgor a oedd data yn cael ei gasglu i sicrhau bod amser yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor nad oedd unrhyw ddata wedi'i gasglu ond bod gwaith wedi'i gwblhau a bod dyddiaduron ac argaeledd yn cael eu monitro. Roedd y Pwyllgor yn pryderu am les staff o ran dyddiaduron gorlawn. Roedd y Cyfarwyddwr Strategol yn cydnabod heriau cyfarfodydd cefn wrth gefn ond teimlai fod dull hybrid yn ddefnyddiol o ran creu cydbwysedd. Dywedodd yr Uwch Bartner Busnes AD a DS wrth y Pwyllgor fod adborth arolwg staff yn cytuno bod gweithio hybrid yn fuddiol i'r rhan fwyaf o staff a bod lleoedd swyddfa ar gael i'r rhai a oedd yn dymuno gweithio o'r swyddfa.

- Roedd y Pwyllgor yn poeni am effaith Brexit ar staffio a recriwtio. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor fod hwn yn fater cenedlaethol ar draws gofal cymdeithasol i oedolion.

- Holodd y Pwyllgor beth oedd yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag anghydbwysedd rhwng y rhywiau ym maes gofal/gwaith cymdeithasol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol wrth y Pwyllgor fod hwn yn fater ehangach na dim ond i CDC. Hysbyswyd y Pwyllgor bod staff gwrywaidd yn gweithio o fewn gwasanaethau cymdeithasol Casnewydd ac roedd yn bwysig bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Tynnwyd sylw at y ffaith bod gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â materion a godwyd megis staff gwrywaidd yn gweithio gyda thadau a gofalwyr maeth gwrywaidd a'u cefnogi, ond bod dynion yn aml yn dod yn rheolwyr yn gyflym. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion wrth y Pwyllgor fod adborth defnyddwyr gwasanaeth yn bwysig, a gwnaed gwaith i sicrhau bod y pecyn gofal cywir yn cael ei ddarparu, ond ni fu unrhyw

broblemau gyda'r system hon hyd yma. Dywedodd yr Uwch Bartner Busnes AD a DS wrth y Pwyllgor fod y Cynllun Pobl yn tynnu sylw at drawsnewid cynrychiolaeth a oedd yn gweithio i sicrhau bod y gweithlu'n cynrychioli amrywiaeth Casnewydd, er nad yw hyn yn fater penodol i wasanaethau cymdeithasol. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion) wrth y Pwyllgor fod ymgysylltu â ffeiriau gyrfaoedd ac ysgolion yn hanfodol. Tynnodd sylw at y ffaith nad un alwedigaeth yn unig oedd gwaith cymdeithasol a bod y gwaith yn hynod werth chweil a bod angen cyfathrebu'r neges hon yn gryfach. Nodwyd cyfnodau anodd yn ystod Covid gyda gwaith cymdeithasol yn cael ei dargedu yn y cyfryngau. Hysbyswyd y Pwyllgor nad yw staff, pan fyddant yn gadael swyddi, yn gadael y proffesiwn o reidrwydd ond yn symud o fewn ymbarél gwaith cymdeithasol a'i bod yn bwysig dangos ei fod yn llwybr gyrfa gwerth chweil.

- Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar hyrwyddo rôl gweithwyr cymdeithasol ac yn holi sut roedd hyn yn cael ei wneud. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Strategol wybod i'r Pwyllgor am waith cenedlaethol sy'n cael ei wneud gyda Gofalwn Cymru ar ymgyrchoedd recriwtio cadarnhaol, yr oedd staff Casnewydd wedi cymryd rhan ynddynt. Nodwyd bod y gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda cholegau a darparwyr gofal cymdeithasol. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y cafwyd gostyngiad sylweddol yn lefel y recriwtio gan fod llai o bobl yn dechrau hyfforddi'n genedlaethol. Nodwyd y ffocws ar annog staff i uwchsgilio, gan fod staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant yn tueddu i gael eu cadw.

- Gofynnodd y Pwyllgor am gynllunio olyniaeth. Nododd y Cyfarwyddwr Strategol fod sawl rhaglen ar gyfer datblygu gyda sefydliadau allanol a chyfleoedd rhwydweithio. Tynnwyd sylw at ystod o gymwysterau â chymorth y mae staff yn eu cyflawni. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod recriwtio'n dda ar lefel rheoli. Dywedodd y Pennaeth Atal a Chynhwysiant wrth y Pwyllgor eu bod yn mynd ati i annog y rhai â chymwysterau chwarae/ieuenctid i gymryd rhan mewn hyfforddiant ar gyfer gwaith cymdeithasol. Teimlai'r Aelod Cabinet dros Les Cymunedol ei fod yn alwedigaeth, ac aeth y staff y filltir ychwanegol dros y gwasanaeth.

- Teimlai'r Pwyllgor fod angen ymgysylltu o fewn ysgolion i annog gwaith cymdeithasol fel gyrfa. Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant) wrth y Pwyllgor fod natur arbenigo wedi helpu i alluogi staff i gael eu cefnogi yn y rolau hyn. Nododd y gwaith pontio'r cenedlaethau sy'n cael ei wneud i gael gwared ar rwystrau a gwella dealltwriaeth a adlewyrchir gan y ffaith bod gwaith gofal yn cael ei ystyried yn broffesiwn. Anogwyd y Pwyllgor i hyrwyddo Wythnos Gofal Cymdeithasol.

Canfyddiadau ac Argymhellion

- Gofynnodd y Pwyllgor am nifer y swyddi gwag presennol o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol.

- Argymhellodd y Pwyllgor:

    - Y dylai'r adroddiad ddychwelyd i'r Pwyllgor i'w adolygu mewn blwyddyn sy'n cynnwys meincnodi data ac ystyried argymhellion y Pwyllgor.

    - Parhau â'r gwaith i annog gweithlu mwy cytbwys rhwng y rhywiau.

    - Ymgysylltu ag ysgolion i annog maes gofal/gwaith cymdeithasol fel gyrfa.

    - Parhau i weithio gydag awdurdodau lleol eraill i greu cronfa o weithwyr wrth gefn.

5 **Adroddiad Cynghorydd Craffu**

a. Diweddariad am y Flaenraglen Waith

Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor mai dyma gyfarfod olaf y flwyddyn a bod y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 11 Mehefin 2024.

b. Materion yn Codi

Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor y bydd rhai eitemau heb eu penderfynu'n cael eu cario ymlaen i'r flwyddyn nesaf.

c. Adroddiadau Gwybodaeth

Dywedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor fod ychydig o adroddiadau gwybodaeth wedi'u dosbarthu ond ni chafwyd unrhyw sylwadau gan y Pwyllgor.

6 **Digwyddiad Byw**

Gellir gweld recordiad o'r cyfarfod yma.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.18 am

Mae'r dudalen hon yn wag yn